| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Crëwyd:** | 28/06/2019 |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 05/07/2019 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Pobl |
| **Man Gweithio:** | AD |
| **Manylion cyswllt:** | Richard Ballantine<br>Rhif Ffôn:01443 866749<br>E-bost: ballar@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwyriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd angen i Ymgeiswyr / Gweithwyr sy'n gwneud cais neu sydd eisoes mewn swyddi sydd angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ddarparu manylion i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'w prosesu. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y prosesu

Mae rhai swyddi o fewn y Cyngor wedi'u dynodi fel rhai sydd â gofyniad statudol am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), tra bod y Cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad DBS ar gyfer rhai swyddi i sicrhau bod deiliaid swydd/darpar ddeiliaid swydd yn addas ar gyfer gweithio gyda phlant neu oedolion bregus. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu y dylid adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob 3 blynedd.

Os nad yw deiliaid swydd/darpar ddeiliaid swydd yn gallu darparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y DBS er mwyn cynnal gwiriad DBS, bydd CBSC yn defnyddio gwasanaeth gwirio hunaniaeth allanol cymeradwy er mwyn gwirio hunaniaeth, er mwyn cyflawni gwiriad y DBS.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

Os oes gofyniad statudol am wiriad y DBS, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw:

| | |
|---|---|
| Erthygl 6 1c. | mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi; |

Os bydd y cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd neu ei bod yn adnewyddu'r DBS, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw:

Erthygl 6 1f. mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r testun data yn blentyn.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau neu 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categorïau hyn, yna rhaid nodi amod ychwanegol ar gyfer prosesu, fel yr amlinellir isod:

Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 1 / Rhan 1

1 (1) Cyflawnir yr amod hwn os-
(a) mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion perfformio neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau sy'n cael eu gosod neu eu rhoi yn ôl y gyfraith ar y rheolwr neu'r testun data mewn perthynas â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu amddiffyniad cymdeithasol, a
(b) pan fydd y prosesu'n cael ei wneud, mae gan y rheolwr ddogfen bolisi briodol ar waith (gweler paragraff 39 yn Rhan 4 o'r Atodlen hon).

**Y canlyniadau o beidio â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani**

Os ydych yn gwneud cais am swydd y mae angen gwiriad y DBS ar ei chyfer, mae'n ofyniad yn y broses ymgeisio eich bod yn cyflwyno'r wybodaeth / dogfennau gofynnol sydd eu hangen er mwyn cyflawni gwiriad y DBS.

O ran adnewyddu gwiriad y DBS, mae'n ofyniad yn eich telerau ac amodau cyflogaeth eich bod yn cyflwyno'r wybodaeth/dogfennau gofynnol sydd eu hangen er mwyn cyflawni gwiriad y DBS.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol
Ebost: rhyddidgwybodaeth@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

- Staff AD sy'n rhan o'r broses recriwtio/adnewyddu
- Staff CBSC sy'n ymwneud â phroses y DBS
- Eich rheolwr llinell, am benderfynu a ydych chi'n addas ar gyfer cyflogaeth / parhau mewn cyflogaeth gyda'r cyngor.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Bydd eich manylion personol yn cael eu rhannu gyda'r DBS er mwyn iddynt allu gwneud gwiriad y DBS. Mae copi o'u hysbysiad preifatrwydd ar gael yn:
[www.gov.uk/government/publications/basic-dbs-check-privacy-policy](www.gov.uk/government/publications/basic-dbs-check-privacy-policy)

Os na allwch ddarparu'r dofennau adnabod sy'n ofynnol gan y DBS er mwyn cynnal gwiriad y DBS, bydd CBSC yn defnyddio gwasanaeth gwirio hunaniaeth cymeradwy allanol er mwyn gwirio hunaniaeth, er mwyn parhau â gwiriad y DBS. Ar hyn o bryd, darperir y gwasanaeth hwn gan Experian. Bydd Experian yn gwirio'r manylion a roddwch yn erbyn unrhyw gronfa ddata (cyhoeddus neu fel arall) y mae ganddynt fynediad iddi. Gallant hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a roddwch yn y dyfodol i gynorthwyo cwmnïau eraill at ddibenion dilysu. Mae copi o Hysbysiad Preifatrwydd Experian ar gael yn: www.experian.co.uk/consumer/privacy.html

**Manylion am unrhyw broseswyr data allanol**

Prosesir gwiriadau'r DBS gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caint sy'n froceriaid e-swmp cymeradwy, ar ran Cyngor Bwrdeistref Caerffili.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 2018.

Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd y wybodaeth a ddarperir i gynnal gwiriad y DBS a chanlyniad y gwiriad yn cael eu cadw am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

[www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb](www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb)

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i wneud penderfyniad ar eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth/parhau mewn cyflogaeth gyda'r cyngor.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw rhwymedigaeth gyfreithiol lle mae gofyniad statudol i gael gwiriad gan y DBS ar gyfer eich swydd neu lle mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad y DBS ar gyfer eich swydd neu ar gyfer adnewyddu, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw buddiannau cyfreithlon. Bydd y wybodaeth a ddarperir i gynnal gwiriad y DBS a chanlyniad y gwiriad yn cael eu cadw am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf.

Er mwyn prosesu eich gwiriad y DBS, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r DBS. Os na allwch ddarparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y DBS er mwyn cynnal gwiriad y DBS, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag Experian er mwyn gwirio eich hunaniaeth.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad i wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i wneud penderfyniad ar eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth/parhau mewn cyflogaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw rhwymedigaeth gyfreithiol lle mae gofyniad statudol i gael gwiriad gan y DBS ar gyfer eich swydd neu lle mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad y DBS ar gyfer eich swydd neu ar gyfer adnewyddu, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw buddiannau cyfreithlon. Bydd y wybodaeth a ddarperir i gynnal gwiriad y dDBS a chanlyniad y gwiriad yn cael eu cadw am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf.

Er mwyn prosesu eich gwiriad y DBS, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r DBS. Mae manylion pellach ar sut y bydd y DBS yn prosesu eich gwybodaeth ar gael yma:
www.gov.uk/government/publications/basic-dbs-check-privacy-policy

Os na allwch ddarparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y DBS er mwyn cynnal gwiriad y DBS, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag Experian er mwyn gwirio eich hunaniaeth. Bydd Experian yn gwirio'r manylion a roddwch yn erbyn unrhyw gronfa ddata (cyhoeddus neu fel arall) y mae ganddynt fynediad iddi. Gallant hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a roddwch yn y dyfodol i gynorthwyo cwmnïau eraill at ddibenion dilysu. Mae manylion pellach ar sut y bydd Experian yn prosesu eich gwybodaeth ar gael yma:
www.experian.co.uk/consumer/privacy.html

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad i wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym ni (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}